OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1709 (Cy.171)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006

*Wedi'u gwneud - - 27 Mehefin 2006*

*Yn dod i rym - - 7 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru,drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 233(1) a (4) o Ddeddf Tai 2004(**1**) ac wedi cymryd camau i ymgynghori â'r personau a grybwyllir yn adran 233(2)(a) a (b), ac wedi ei fodloni gyda'r trefniadau cyhoeddi yn unol ag adran 233(3), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006 a a daw i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran mangreoedd yng Nghymru.

### Cymeradwyo codau ymarfer

**2.**—(1) Mae'r codau ymarfer a grybwyllir ym mharagraff (2) sy'n gosod safonau ar gyfer ymddygiad ac ymarfer sydd i'w dilyn parthed rheoli—

(a) tai amlfeddiannaeth a feddiennir yn unig neu'n bennaf gan bersonau sy'n eu meddiannu at y diben o ymgymryd â chwrs amser llawn o addysg bellach neu uwch(**2**); neu

(b) adeiladau sy'n cwympo o fewn paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 (adeiladau a feddiennir gan fyfyrwyr),

yn rhai a gymeradwyir at ddibenion adran 233 o'r Ddeddf.

(2) Y codau ymarfer yw—

(a) Cod Ymarfer Prifysgolion y DU/Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon y Prifysgolion ar gyfer Rheoli Tai Myfyrwyr (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**3**);

(**1**) 2004 (p. 34). Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 233 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" ("*awdurdod cenedlaethol priodol*") yn adran 261(1).

(**2**) Am ystyr "tŷ amlfeddiannaeth" *gweler* y diffiniad o "house in multiple occupation" yn adrannau 254 i 259 o'r Ddeddf.

(**3**) Gellir cael copi o'r Cod hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk,

(b) Cod Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol ar gyfer Datblygiadau Mwy ar gyfer Llety i Fyfyrwyr a Reolir ac Sydd Dan Reolaeth Sefydliadau Addysgol (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**4**); ac

(c) Cod Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol ar gyfer Datblygiadau Mwy ar gyfer Llety i Fyfyrwyr Nas Rheolir Gan ac Nad Ydynt Dan Reolaeth Sefydliadau Addysgol (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**5**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**). 27 Mehefin 2006

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

neu Universities UK, Woburn House, 20 Tavistock Square, Llundain WC1H 9HQ; e-bost: info@universitiesuk.ac.uk; rhyngrwyd: www.universitiesUK.ac.uk.

(**4**) Gellir cael copi o'r cod hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu The National Administrator, National Codes of Standards, 155-157 Woodhouse Lane, Leeds LS2 3ED: e-bost: nationalcode@unipol.leeds.ac.uk neu nationalcode@anuk.org.uk; rhyngrwyd: www.unipol.org.uk neu www.anuk.org.uk/Large Code/. , .

(**5**) Gellir cael copi o'r cod hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu The National Administrator, National Codes of Standards,, 155-157 Woodhouse Lane, Leeds LS2 3ED: e-bost: nationalcode@unipol.leeds.ac.uk neu nationalcode@anuk.org.uk; rhyngrwyd: www.unipol.org.uk neu www.anuk.org.uk/Large Code/., .

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo tri cod ymarfer sy'n gosod safonau ar gyfer ymddygiad ac ymarfer sydd i'w dilyn parthed rheoli tai amlfeddiannaeth ("HMOs") ac adeiladau eraill a feddiennir yn unig neu yn bennaf gan fyfyrwyr amser llawn.

Yr adeiladau eraill a grybwyllir yw'r rheiny sy'n cwympo o fewn paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 (sy'n darparu ar gyfer math o adeilad a feddiennir gan fyfyrwyr nad yw yn HMO at ddibenion y Ddeddf honno). Yn achos yr adeiladau hynny, rhaid i fyfyrwyr sy'n eu meddiannu wneud hynny at y diben o ymgymryd â chyrsiau addysg amser llawn mewn sefydliadau addysgol penodedig. Mae Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) ) 2006 wedi cael eu gwneud er mwyn pennu sefydliadau addysgol at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effeiithiau y bydd y Gorchymyn hwn yn ei gael ar gael oddi wrth Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF 10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; intranet: www.wales.gov.uk.